**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 YN FLAENOROL) - DYDD LLUN, 24 TACHWEDD 2025**

COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 1 GYNT) A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD LLUN, 24 TACHWEDD 2025 AM 11:00

Presennol

Y Cynghorydd H Griffiths – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| JPD Blundell | HJ David | JH Tildesley MBE |

Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | D M Hughes | J Llewellyn-Hopkins | R J Smith |
| I M Spiller | AJ Williams | E D Winstanley | |

Cynrychiolydd Cofrestredig

A Clarke – Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Ford, T Thomas ac A Wathan

| | |
|---|---|
| L Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Martyn Jones | Aelod y Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid |
| Gayle Shenton | Pennaeth Dysgu |
| Darren Jones | Rheolwr Grwp – Gwella Ysgolion |
| Mathew Jones | Swyddog Arweiniol (Dysgu Digidol) |
| Neil Arbery | Swyddog Arweiniol (Cymorth I Ysgolion Cynradd) |
| Sarah Humphreys | Swyddog Arweiniol (Cymorth I Ysgolion Uwchradd) |

Penaethiaid:

| | |
|---|---|
| Richard Bailey | Pennaeth, Ysgol Gynradd Bryncethin |
| Jeremy Evans | Pennaeth, Ysgol Heronsbridge |
| Edward Jones | Pennaeth, Ysgol Gyfun Pencoed |
| Adam Raymond | Pennaeth Dros Dro, Ysgol Gynradd Pencoed |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro |
| Nimi Chandasena | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Cymorth |

Datganiadau o Fuddiannau

JPD Blundell – Personol – Eitem 4 – Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol Fabanod Cefn Glas.
R Collins – Personol – Eitem 4 – Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig.
HJ David – Personol – Eitem 4 – Cyfarwyddwr Anweithredol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.
J Llewellyn-Hopkins – Personol - Eitem 4 – Llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cynffig.
JH Tildesley – Personol - Eitem 4 – Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon-Y-Felin.
A Williams – Personol - Eitem 4 – Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol Gynradd Coety.
E Winstanley – Personol – Eitem 4 – Proffesiwn – Llyfrgellydd â diddordeb proffesiynol mewn llythrennedd gwybodaeth.

**86. Cymeradwyo'r Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | **PENDERFYNWYD:**<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid dyddiedig 15 Medi 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Tachwedd 2025 |

## 87. Diogelwch Ar-lein a Dysgu Digidol

<table>
<tr>
<td>Y Penderfyniad Wnaed</td>
<td>
<u>PENDERFYNWYD</u>:
Ar ôl ystyried yr adroddiad a’i drafod yn fanwl gydag Aelod o'r Cabinet, Uwch Swyddogion a Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a'r ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol:
Argymhellion
<ol>
<li>Bu’r Pwyllgor yn trafod, o ystyried y safbwyntiau craff a rannwyd gan benaethiaid a wahoddwyd i'r cyfarfod ynghylch diogelwch ar-lein a dysgu digidol, y byddai gwerth pellach mewn hyrwyddo cydweithio a rhannu arfer da, ac argymhellodd y dylid ystyried cynnal arolwg o benaethiaid pob ysgol yn y Fwrdeistref Sirol ynghylch eu profiadau a'u dulliau o gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd mewn perthynas â diogelwch ar-lein.</li>
<li>Argymhellodd y Pwyllgor y dylid ystyried peri bod yr un hyfforddiant a gweithdai diogelwch ar-lein a chyfryngau cymdeithasol ag a ddarperir i Lywodraethwyr ysgolion hefyd ar gael i rieni.</li>
<li>Argymhellodd y Pwyllgor fod angen adnewyddu'r bartneriaeth strategol rhwng y Cyngor a Heddlu De Cymru mewn perthynas â chynorthwyo ysgolion i ymdopi â heriau troseddol posibl technoleg newydd, ac y dylid ystyried anfon syniadau am y materion hyn a rôl yr heddlu ymlaen at gynrychiolydd y Cyngor ar Banel Heddlu a Throseddu De Cymru.</li>
<li>Bu’r Pwyllgor yn trafod y risg i blant a diogelwch ar-lein ac argymhellodd y dylid ystyried cydweithio ymhellach â gofal cymdeithasol plant i gynorthwyo plant a phobl ifanc agored i niwed a chyda gofalwyr maeth i gynorthwyo Plant sydd â Phrofiad o Ofal gyda diogelwch ar-lein, a hefyd i nodi a chefnogi'n well y bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn y gymuned.</li>
</ol>
Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol:
<ol start="5">
<li>Gofynnodd y Pwyllgor am sesiwn friffio i'r holl Aelodau ynghylch effaith deallusrwydd artiffisial ar addysg.</li>
<li>Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am y ffordd y mae'r Cyngor yn cynorthwyo dysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref i ddefnyddio technoleg a chyfryngau cymdeithasol yn ddiogel.</li>
<li>Gofynnodd y Pwyllgor am gopi o'r Canllawiau a ddatblygwyd yn lleol, ac a gydnabuwyd gan</li>
</ol>
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Lywodraeth Cymru, ynghylch deallusrwydd artiffisial a llên-ladrad.<br><br>8. **Gofynnodd** yr aelodau am y ddolen gyswllt i adroddiad Estyn, 'Cyfnod Newydd: Sut mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn Cefnogi Addysgu a Dysgu: Cyfleoedd a heriau AI mewn ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yng Nghymru a sut y dylai arweinwyr ymateb' (Hydref 2025). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Tachwedd 2025 |

## 88. Diweddariad y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | **PENDERFYNWYD**:<br><br>a. Cymeradwyo’r Flaenraglen Waith (RhW) yn Atodiad A, nodi’r Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B a nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith a gymeradwywyd gan y Pwyllgor yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol er gwybodaeth.<br><br>b. Bu’r Pwyllgor yn ystyried yr atgyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC) mewn perthynas â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer ysgolion ac **argymhellodd**, o ystyried y pryder y gallai fod problem diogelu yn gysylltiedig â staff oedd yn cael dechrau yn eu swyddi heb gliriad DBS nac asesiadau risg priodol yn eu lle, y dylid cyfeirio hyn at y GAC i ofyn am dynnu'r mater i sylw Diogelu.<br><br>c. Yn ogystal, **argymhellod**d y Pwyllgor y dylid cyfeirio'r pryder at Gymorth i Lywodraethwyr i ofyn iddynt godi'r mater gyda phob Corff Llywodraethu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Tachwedd 2025 |

## 89. Eitemau Brys

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 YN FLAENOROL) - DYDD LLUN, 24 TACHWEDD 2025**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Tachwedd 2025 |

I wylio dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 13:10.